

---

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â thrin cynnwys sain yn effeithlon wrth recordio ffeiliau sain a ffurfiau gan ddefnyddio gwahanol raglenni, llwyfannau a chyfryngau cyfrifiadurol. Mae'n ymwneud â deall pa ffurfiau ffeil i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd penodol, a gallu gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch dulliau trosglwyddo, cywasgu, enwi ffeiliau a storio.

Mae'r safon hon yn arbennig ar gyfer y rheiny sy'n rheoli cynnwys sain gan ddefnyddio gwahanol raglenni, llwyfannau a chyfryngau.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. cydymffurfio â'r gweithdrefnau a'r prosesau sefydliadol i reoli cynnwys sain
2. mewnforio cynnwys sain gan ddefnyddio'r dull penodedig
3. trosglwyddo cynnwys sain rhwng gorsafoedd gweithio, llwyfannau a gwahanol raglenni sain
4. cyfateb rhyngwynebau rhwng y ffynhonnell a'r cyrchfan o ran normaleiddio lefel sain, mesur maint, afluniad, rhwystriant, ansawdd, polaredd a ffurf, a chadarnhau bod ganddyn nhw unrhyw gydamseredd gofynnol
5. cadarnhau bod y cynnwys sain ar y ffurf ddymunol, ar y lefel ofynnol, ac â'r ystod ddynamig sy'n briodol ar gyfer y cyfrwng neu'r dechnoleg recordio
6. allforio ffeiliau sain i'r cyfryngau priodol gan ddefnyddio'r dull mwyaf priodol
7. canfod datrysiadau eraill ar gyfer mewnforio ac allforio sain, lle'n briodol
8. cadw ffeiliau sain ar ffurfiau penodedig mewn lleoliad diogel, yn unol ag arferion y sefydliad
9. sicrhau caiff cyfanrwydd y cynnwys sain ei gynnal drwy gydol ei ddefnydd
10. cwblhau'r gwaith recordio ymhen y graddfeydd amser penodedig
11. cywiro diffygion mewn sain, methiannau yn y systemau, a methiannau mecanyddol sy'n berthnasol i'ch cyfrifoldebau a'ch maes arbenigedd chi
12. ceisio cymorth pan fo diffygion a methiannau y tu hwnt i'ch arbenigedd chi

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. egwyddorion sylfaenol sain ac acwsteg
2. y prif wahaniaethau rhwng cynnwys sain analog a digidol
3. sut i reoli cynnwys sain yn gywir
4. yr amryw brotocolau a dulliau a ddefnyddir i drosglwyddo cynnwys sain
5. yr amryw brotocolau a dulliau a ddefnyddir i storio cynnwys sain ar orsafoedd gwaith a systemau cwmwl
6. prif nodweddion meicroffonau, ategolion a rhaglenni
7. y gwahaniaeth rhwng sain mono a stereo a'i oblygiadau
8. nodweddion gweithredu recordwyr symudol
9. pa ffurfiau ffeil sydd heb eu cywasgu neu wedi eu cywasgu, y gwahanol ffurfiau cywasgu, a goblygiadau hyn o ran copïo a defnydd darlledu neu gyflwyno
10. ystyr dyfnder bit, cyfradd samplo a chyfradd bit ffeil sain, sut maen nhw'n gysylltiedig a'r goblygiadau ar gyfer defnydd y ffeil
11. sut byddai nodweddion sain ffeil yn effeithio ar ei faint pan fydd wedi'i storio ar orsaf gwaith sain neu system cwmwl
12. pa ffurfiau ffeil a ddefnyddir ar gyfer llwyfannau a rhaglenni penodol

<b>Datblygwyd gan</b>	ScreenSkills
<b>Fersiwn rhif</b>	3
<b>Dyddiad cymeradwyo</b>	31 Maw 2024
<b>Dyddiad Adolygu Dangosol</b>	31 Maw 2027
<b>Dilysrwydd</b>	Ar hyn o bryd
<b>Statws</b>	Gwreiddiol
<b>Sefydliad cychwynol</b>	ScreenSkills
<b>RCU gwreiddiol</b>	SKSRACC12
<b>Galwedigaethau perthnasol</b>	Cydlynnydd Cynhyrchu, Rheolwyr Stiwdio, Rheolwr Gorsaf, Cyflwynydd Radio, Cynhyrchydd Technegol, Cynorthwydd Darlledu, Cynhyrchydd Cynorthwyol, Cynhyrchydd, Cynhyrchydd Gweithredol, Cynhyrchydd Drama, Cynhyrchydd Comedi, Cynhyrchydd Rhaglenni Dogfen, Cynhyrchydd Podlediadau, Cynhyrchydd Sain
<b>Cyfres/Set</b>	Creu Cynnwys Radio a Sain
<b>Geiriau Allweddol</b>	rheoli; radio; sain; cynnwys; cyfryngau; llwyfannau; deunydd sain; ffurf ffeil;